

# Briff 7 Munud

## Adolygiad Ymarfer Plant

### AYP 2/2018

#### Newidiadau i Ymarfer

- Prosesu atgyfeiriadau diogelu brys**
  - Mae Lefelau 1 a 2 Hyfforddiant Addysg BM yn pwysleisio pwysigrwydd cadw cofnod o unrhyw gysylltiadau ac i ffonio atgyfeiriadau drwodd.
  - Prosesau priodol ar waith o fewn BIPCaF i sicrhau ymateb ar unwaith/priodol. Mae tudalen y fewnwyd ar ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio a phecynnau hyfforddi wedi'i diweddaru i gynghori staff i ffonio atgyfeiriadau drwodd cyn penwythnosau/gwyliau banc.

- Colli apwyntiadau meddygol i blant â phryderon a oedd yn hysbys o'r blaen**

- Mae yna ddull Cymru gyfan o ymdrin ag apwyntiadau 'Heb Ddod' yn y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd, sy'n rhoi canllaw dir fod yn rhaid rhoi gwybod am apwyntiadau sy'n cael eu colli gan blant o deuluoedd sy'n agored i niwed i Dim Diogelu'r BIP.
- Mae system PARIS BIPCaF bellach yn cynnwys dull rhybuddio sy'n hysbysu staff/gwasanaethau sy'n ymwneud â'r teulu am apwyntiadau meddygol a gollwyd gan blentyn.

- Esgeulustod Deintyddol**

- Menter "Codi'r Wefus" a gyflwynwyd ers mis Gorffennaf 2018 a gynnwyswyd i chwilio am arwyddion o bydredd dannedd ac ymateb iddynt.
- Mae Lefelau hyfforddiant diogelu 1 a 2 BIPCaF yn cynnwys difrifoldeb esgeulustod deintyddol.

#### Argymhellion - parhad

- Hyfforddiant/canllawiau wedi'u darparu mewn perthynas â defnyddio 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan - Diogelu Plant rhag Esgeulustod' yn effeithiol.
- BDRhCaF i archwilio gydag asiantaethau partner y posibilrwydd o gael un system/platfform TG a rennir ar gyfer gwybodaeth ddiogelu.

#### Argymhellion ar gyfer Gwella Ssystemau ac Ymarfer

Gwnaeth yr adolygiad saith argymhelliad yn ymwneud â'r prif feysydd o ddysgu sefydliadol. Nodir y rhain fel a ganlyn:

- Yr arfer a'r dysgu sefydliadol i'w cynnwys ar bob lefel o hyfforddiant diogelu.
- Hyfforddiant/arweiniad i staff mewn perthynas â phrosesu atgyfeiriadau diogelu 'plentyn sy'n wynebu risg' brys, i gynnwys goblygiadau atgyfeiriadau a wnaed cyn penwythnosau/gwyliau banc a defnyddio'r Tîm Dyletswydd Argyfwng a'r heddlu yn briodol.
- Hyfforddiant/arweiniad i staff mewn perthynas â'r defnydd priodol o'r offer esgeuluso.
- Hyfforddiant/arweiniad i staff ar ba gamau pellach y dylid eu cymryd pan fydd plentyn, sydd â phryderon a oedd eisoes yn hysbys, yn methu â mynychu apwyntiadau meddygol nac yn cael ei gyflwyno i weithwyr proffesiynol mewn ymweliadau cartref a drefnwyd ymlaen llaw.

#### Cefndir

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan BDRh CaF yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol

Testun yr adolygiad oedd plentyn 4 oed, gydag achos difrifol o esgeulustod yn arwain at ddiffyg maeth, pydredd dannedd sylweddol ac oedi difrifol ar ei leferydd. Roedd anghenion iechyd a meddygol y plentyn wedi'u hesgeuluso, ynghyd â'i anghenion addysgol. Roedd y plentyn yn byw gyda thri brawd/chwaer hŷn. Roedd hanes o gydymffurfiaeth ffug gan rieni ynghyd ag ymddygiad anghydweithredol.

Bydd y briff 7 munud hwn yn crynhoi'r dysgu allweddol o'r adolygiad hwn.

#### Cyd-destun

Roedd y Gwasanaethau Cyffredinol yn gweithio gyda'r teulu a gwnaed atgyfeiriadau i arbenigwyr mewn Lleferydd ac Iaith ac arbenigwyr Clust, Trwyn a Gwddf. Nododd yr ysgol nifer o bryderon ynglŷn â'r plentyn. Roedd gweithwyr iechyd proffesiynol yn profi anawsterau wrth asesu'r plentyn, gyda phatrwm o apwyntiadau meddygol yn cael eu colli. Arweiniodd pryderon difrifol a godwyd gan staff yr ysgol ynglŷn ag iechyd ac ymddangosiad corfforol y plentyn at Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) yn cael ei chyflwyno.

Yn dilyn y MARF, canfu'r Heddlu a aeth i gartref y teulu fod yr amodau'n wael iawn - fe'i disgrifiwyd fel 'mewn cyflwr o frynti a budredd cyffredinol'. Yna, bu'r plentyn yn destun prawf meddygol amddiffyn plant brys, y cadarnhaodd ei ganlyniadau esgeulustod a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer niwed sylweddol.

#### Cyd-destun (parhad)

Cafodd y ddau riant eu harestio am esgeulustod troseddol o blentyn a gwnaed Achosion Amddiffyn Plant ar unwaith mewn perthynas â'r plentyn a'r brodyr/chwiorydd. Cafodd y rhieni eu cyhuddo wedyn o esgeulustod troseddol a phledio'n euog, gan arwain at gollfarn droseddol.

#### Dysgu Sefydliadol

Nodwyd y meysydd allweddol canlynol o ddysgu sefydliadol yn yr adolygiad:

- Rhannu gwybodaeth a gwaith amlasiantaethol.
- Uwchgyfeirio a dilyn atgyfeiriadau ar unwaith drwy ffonio'r Gwasanaethau Plant.
- Cadw cofnodion cynhwysfawr a chywir.
- Cydymffurfiaeth ffug gan rieni.
- Chwilfrydedd proffesiynol.
- Goblygiadau esgeulustod deintyddol difrifol.
- Trothwion yr asiantaeth ar gyfer atgyfeiriadau diogelu plant
- Llais y plentyn.

